Darganfod
Dadlau
Dewis

—

Discover
Debate
Decide

# Bagloriaeth Cymru—Canolradd
# Llyfryn 03—Sut i Leisio Barn



## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.**

# Sut i Leisio Barn



**I ddrygioni ffynnu, does ond angen i ddynion da wneud dim.**

**- Simon Wiesenthal, goroeswr yr Holocost**

[1]

**Mae sawl ffordd y gallwch leisio barn a gwneud yn siŵr fod eich barn yn cael ei gyfrif.**

**Y cam cyntaf yw gwybod pwy yw eich cynrychiolwyr.**

## Gweithgaredd 1: Pwy sy'n fy nghynrychioli?

**Defnyddiwch y wybodaeth a ddarperir ar: http://www.writetothem.com i lenwi'r blychau canlynol:**

**Fy Nghynghorydd**

**Fy Aelod Seneddol**

**Fy Aelod Cynulliad Etholaethol**

**Fy Aelodau Cynulliad Rhanbarthol**

1.
2.
3.
4.

**Fy Aelodau o Senedd Ewrop**

1.
2.
3.
4.

# Gweithgaredd 2: Cysylltu â'ch cynrychiolwyr

**Mae bob amser yn syniad da i wneud rhywfaint o waith ymchwil cefndirol cyn mynd at wleidydd gyda'ch pryderon neu'ch syniadau.**

2





**Paratowch adroddiad ar rai o'r problemau yn eich ardal leol. I gryfhau'ch achos, defnyddiwch luniau, cyflwyniadau PowerPoint neu ganfyddiadau eich arolwg eich hun.**

3

**Estynnwch wahoddiad i AC neu gynrychiolydd lleol arall i fod yn bresennol yn un o'ch cyfarfodydd grŵp fel y gallwch gyflwyno'ch adroddiad yn bersonol. Fel arall, defnyddiwch y canllawiau a roddir isod i ddrafftio llythyr.**

**COFIWCH – Defnyddiwch frawddegau byr ac iaith glir a chryno i fynegi'ch pwynt yn effeithiol!**

Rhif y tŷ a Stryd
Tref
Sir
Cod Post

Enw a chyfeiriad y cynrychiolydd

(rhowch y dyddiad yma)

Annwyl

PARAGRAFF 1 – Dywedwch pam eich bod yn ysgrifennu. Beth yw eich pryder neu syniad?

PRIF GORFF Y LLYTHYR
- Nodwch y ddadl dros yr achos gan nodi'r ffeithiau.
- Defnyddiwch baragraff newydd ar gyfer pob rhan wahanol o'r ddadl.
- Defnyddiwch bwyntiau bwled os teimlwch y byddant yn gwneud eich dadl yn fwy eglur.

Y PARAGRAFF CLOI – Dylai hwn sicrhau nad oes gan y darllenydd unrhyw amheuaeth o'ch teimladau ynghylch y mater.

Yn gywir,

# Cyflwynwch ddeiseb

**Mae deiseb yn ffordd o ofyn i wleidyddion ystyried unrhyw fater, problem neu gynnig y mae ganddynt y pŵer i wneud rhywbeth yn ei gylch.**

**Mae gan Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru systemau ar waith sy'n caniatáu i'r cyhoedd fynegi'u barn.**

**Gellir dod o hyd i wybodaeth am system ddeisebau Senedd y DU yma:**

**http://epetitions.direct.gov.uk/**

**Yng Nghymru, mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried unrhyw ddeiseb y mae'r Llywydd yn penderfynu ei bod yn dderbyniadwy.**

**Mae Pwyllgor Deisebau arbennig yn bodoli er mwyn ystyried deisebau derbyniadwy a phenderfynu pa gamau y dylid eu cymryd.**




(O'r chwith: William Powell AC (Cadeirydd), Joyce Watson AC, Russell George AC, Bethan Jenkins AC)

**Gellir cyflwyno deisebau naill ai drwy'r ffurflenni ar-lein sydd i'w cael ar:**

**http://www.assemblywales.org/gethome/e-petitions.htm**

neu gellir eu postio i:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os byddwch yn defnyddio'ch templed deiseb eich hun, yn hytrach na'r rhai sydd ar gael i'w lawr lwytho, mae'n bwysig eich bod yn cyflwyno'r ddeiseb cyn casglu'r llofnodion. Bydd hyn yn caniatáu i ni wirio'r geiriad i chi, gan ei bod yn anodd newid hyn wedi i chi ddechrau casglu llofnodion.



Daeth y tâl o 5c am fagiau plastig nad ydynt yn pydru yng Nghymru i rym o ganlyniad i ddeiseb yn galw am eu gwahardd yn gyfan gwbl.

4



Bu cynnydd yn y gwasanaethau trên i Sir Benfro wedi i ddau ddisgybl chweched dosbarth lunio deiseb a'i chyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

5

## Mae eich democratiaeth eich angen chi!

Cyn y gallwch leisio barn mewn etholiad neu refferendwm mae'n rhaid i chi gofrestru i bleidleisio'n gyntaf.

Ni chewch eich cofrestru'n awtomatig, hyd yn oed os ydych yn talu'r dreth gyngor.

Gallwch gofrestru i bleidleisio ar ôl eich pen-blwydd yn 16 oed cyn belled â'ch bod yn ddinesydd Prydeinig, neu'n ddinesydd Gwyddelig, yn ddinesydd o'r Gymanwlad neu'r Undeb Ewropeaidd sy'n byw yn y DU.

Ewch i www.fymhleidlaisi.co.uk i ganfod sut i gofrestru ar gyfer pleidleisio.

## Gweithgaredd 3: Pleidlais i ferched!

**Yn y rhan fwyaf o wledydd, dim ond yn ystod y can mlynedd diwethaf y caniatawyd i ferched bleidleisio mewn etholiadau.**

**Rhowch y gwledydd canlynol mewn trefn, yn ôl pa wledydd y credwch a roddodd bleidlais i ferched gyntaf:**



Y Deyrnas Unedig



Tsieina



Sawdi Arabia



Y Swistir



Rwsia



Seland Newydd



Yr Eidal



UDA

**Fy nghynnig i**

1.
2.
3.
4.
5.
6.
7.
8.

**Atebion cywir**
(Atebion ar y tudalen olaf)

1.
2.
3.
4.
5.
6.
7.
8.

# Merched y Bleidlais

Yn y lle cyntaf, roedd 'Suffragette' yn enw dirmygus a roddwyd gan y *Daily Mail* ar ferched a oedd yn ymgyrchu dros yr hawl i bleidleisio ar ddechrau'r 20fed ganrif.

Mae'n dod o'r gair Saesneg 'suffrage', sy'n golygu 'yr hawl i bleidleisio'.

Disodlwyd yr arwyddocâd negyddol hwn pan hawliodd merched y bleidlais yr enw ar gyfer eu hunain.



Roedd y syniad o ganiatáu i ferched bleidleisio yn amhoblogaidd iawn. Dywedir i hyd yn oed y Frenhines Victoria ebychu:

> "Pleidlais i ferched yn wir! Bydd gofyn i ni roi pleidlais i'n ceffylau a'n cŵn nesaf!"

6

Roedd disgwyl i ferched Oes Victoria fod yn dawel, yn ufudd ac yng ngofal y cartref, tra roedd y dynion yn ymdrin â materion y byd. Pan fyddai merch yn priodi, byddai hi a'i heiddo yn dod yn eiddo cyfreithiol ei gŵr.

Ymhlith y dadleuon yn erbyn rhoi pleidlais i ferched roedd y canlynol:

- Byddai'n achosi ffraeo rhwng parau priod.
- Byddai'n tynnu sylw merched oddi ar eu dyletswyddau yn y cartref.
- Byddai'n difrïo eu benyweidd-dra.
- Byddai gwendid corfforol merched yn golygu na allent orfodi unrhyw gyfreithiau a wnaethant.
- Gallai Prydain golli parch gwledydd eraill pe bai awgrym mai merched a gyflwynodd y polisïau.

— Ystyriwyd na allai merched wneud penderfyniadau, ac y byddai gan eu gwŷr ddwy bleidlais.
— Roedd merched eisoes yn cael eu cynrychioli yn y Senedd gan y dynion yn eu teulu.

## Yr Ymgyrchwyr

Llywydd Undeb Cenedlaethol Cymdeithasau Pleidlais i Ferched rhwng 1880 a 1918 oedd Millicent Fawcett.

Roedd hi a'i dilynwyr yn credu mewn ymgyrchu heddychlon a chyfansoddiadol.

| |
|---|
| 1907 – Sefydlwyd y gangen gyntaf yng Nghymru yn Llandudno. |
| 1908 – Canghennau'n agor yn y Rhyl a Chaerdydd. |
| 1912 – Canghennau'n agor ar Ynys Môn ac ym Mangor. |

[7]




Ym 1903, bu ymraniad yn y mudiad a'i dactegau ymgyrchu pan sefydlodd Emmeline Pankhurst Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol y Merched (WSPU) a oedd yn fwy milwriaethus.

# Gweithgaredd 4: Ymgyrchu effeithiol?

**Defnyddiodd merched y bleidlais amrywiaeth o dactegau gwahanol i gyflawni'u hamcanion. Ar ôl edrych ar yr enghreifftiau isod, rhestrwch fanteision ac anfanteision pob un. Trafodwch eich atebion wedyn gyda gweddill y grŵp.**



8

**Ym 1909 cadwynodd ymgyrchydd o'r enw Margery Humes ei hun i gerflun o Is-iarll Falkland yn Nhŷ'r Cyffredin. Bu'n rhaid ei rhyddhau gyda thorwyr bolltau, ac achosodd ei gweithred ddifrod parhaol i'r cerflun. Llogodd ferched eraill gychod a hwylio i fyny'r Afon Tafwys gan weiddi pethau sarhaus ar y Senedd drwy uchelseinyddion.**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| | |

**Mabwysiadodd Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol y Merched (WSPU) y lliwiau piws, gwyn a gwyrdd (a oedd yn symboleiddio urddas, purdeb a gobaith) a chynhyrchwyd amrywiaeth o nwyddau, gan gynnwys setiau llestri te, gemwaith, cardiau post a sgarffiau.**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| | |

**Gwrthododd rhai merched â talu trethi.**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| | |

**Yng Nghymru, carcharwyd Margaret Haig Mackworth (a ddaeth yn ddiweddarach yn Arglwyddes Rhondda) am ffrwydro blwch post ar Ffordd Rhisga yng Nghasnewydd.**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| | |

**Cynhaliwyd cyfarfodydd gwleidyddol a ralïau ar draws y wlad. Argraffwyd a dosbarthwyd miloedd o daflenni, a chyflwynwyd deisebau i wleidyddion. Ym 1910, casglodd un ddeiseb 250,000 o lofnodion.**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| | |

**Ym 1913, collodd un o ferched y bleidlais, o'r enw Emily Davison, ei bywyd pan geisiodd daflu baner dros geffyl rasio'r Brenin yn y Derby yn Epsom.**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| | |

**Roedd Merched y Bleidlais yn gwerthu eu papur newydd eu hunain ar gorneli strydoedd er mwyn lledaenu'r rhesymau dros pam y dylai merched bleidleisio. Fe wnaethant hefyd anfon deisebau i'r Senedd. Casglodd un ddeiseb 250,000 o lofnodion ym 1910.**


| Manteision | Anfanteision |
| --- | --- |
| | |

**Rhwygodd gwrthdystwraig o'r enw Mary Richardson lun enwog o ddynes noeth a oedd yn cael ei harddangos yn yr Oriel Genedlaethol. Rhoddwyd y llysenw 'Slasher Richardson' iddi a chafodd y ddedfryd fwyaf o chwe mis yn y carchar.**

| Manteision | Anfanteision |
| --- | --- |
| | |

**Bu bron i drobwynt ddod ym 1912, pan ddaeth Herbert Asquith, y Prif Weinidog, yn agos at lofnodi dogfen a oedd yn rhoi hawl i rai merched bleidleisio. Penderfynodd beidio â gwneud hynny ar ôl iddo ddechrau pryderu y gallai llawer o'r merched hynny bleidleisio yn ei erbyn yn yr etholiad nesaf.**

## Deddf y Gath a'r Llygoden




Roedd Llywodraeth Prydain yn cosbi Merched y Bleidlais a oedd yn achosi difrod i eiddo cyhoeddus a phreifat, yn llym. Un o'r problemau mwyaf oedd y byddent yn parhau i wrthdystio cyn gynted ag y caent eu carcharu, trwy fynd ar streiciau newyn, a oedd yn aml yn golygu eu gorfodi i fwyta.

Er mwyn osgoi'r embaras o ferched yn marw yn y ddalfa a'u bod yn dod yn ferthyron i'w hachos, cyflwynodd y Llywodraeth gyfraith newydd ym 1913. Cafodd ei galw'n Ddeddf y Gath a'r Llygoden.

Roedd hyn yn golygu bod merched yn cael eu rhyddhau o'r carchar cyn gynted â'u bod yn sâl, a'u bod yn cael eu hail arestio am fân drosedd cyn gynted â'u bod yn ddigon da i gymryd rhan mewn rhagor o wrthdystiadau Merched y Bleidlais.

9

## Y Rhyfel Byd Cyntaf

Yn y pen draw, y digwyddiadau a oedd fwyaf effeithiol i achos y Merched y Bleidlais oedd y rheini a oedd allan o'u rheolaeth yn llwyr.

Ym 1914, torrodd y Rhyfel Mawr allan yn Ewrop. Parhaodd am bedair blynedd, gan arwain at golli llawer o fywydau. Gan fod cymaint o ddynion wedi'u galw i ymladd yn y ffosydd, roedd angen i ferched wneud eu gwaith yn y ffatrïoedd ac ar y ffermydd. Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddodd y rhan fwyaf o Ferched y Bleidlais y gorau i ymgyrchu. Cydnabuwyd yn eang fod cyfraniad merched yn allweddol i ymdrech Prydain yn y rhyfel.




Achosodd Chwyldro Rwsia ym 1917 hefyd donnau o anesmwythder ar draws Ewrop, pan gafodd y Tsar a'i deulu eu lladd a Llywodraeth gomiwnyddol yn cael ei sefydlu yn eu lle. Cynyddodd y tactegau treisgar a ddefnyddiwyd gan rai o Ferched y Bleidlais y pryder y byddai rhywbeth tebyg yn digwydd ym Mhrydain.

10

## Deddf Cynrychiolaeth y Bobl (1918)

Rhoddodd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl (1918) bleidlais i ferched dros 30 oed a oedd:

- yn berchenogion tŷ
- yn wragedd i berchnogion tŷ
- yn preswylio mewn eiddo gyda rhent blynyddol o dros £5; neu
- yn raddedigion o brifysgolion Prydain.

Fe'i gwelwyd fel buddugoliaeth, er gwaetha'r ffaith nad oedd yn cynnwys llawer o'r merched a oedd wedi bod yn ymgyrchu mor galed dros y bleidlais.

Ni roddwyd yr un hawliau pleidleisio â dynion i ferched tan 1928.

Nodir yn glir fod hawl gan ferched i bleidleisio yn y Confensiwn ar Ddileu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod, a fabwysiadwyd gan y Cenhedloedd Unedig ym 1979.

## Rhwystrau rhag ymgysylltu

Mae nifer cynyddol o bobl a sefydliadau'n credu y dylid gostwng yr oed pleidleisio yn y DU i 16. Mae'r rheini sydd yn erbyn y syniad yn defnyddio llawer o'r dadleuon a ddefnyddiwyd i wrthod pleidlais i ferched 100 mlynedd yn ôl, er enghraifft dealltwriaeth annigonol o faterion y byd, sgiliau gwneud penderfyniadau gwael, a difaterwch pobl ifanc ynghylch gwleidyddiaeth.

## Gweithgaredd 5: Pam nad oes gan bobl ifanc ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth a phleidleisio?

Gan ddefnyddio darn mawr o bapur, cymerwch eich tro i ysgrifennu rhai o'r rhesymau pam nad oes mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

## Gweithgaredd 6: Etholiadau v Pobl Ifanc

Darllenwch yr erthygl o'r *Western Mail* gyda'r teitl 'Young People Snub Assembly Poll', sy'n sôn am bobl ifanc a phleidleisio. Wedyn, trafodwch rai o'r pwyntiau canlynol:

- A ddylai pobl ifanc wneud mwy o ymdrech i ddefnyddio'u pleidlais?
- A yw pleidleisio'n bwysig?
- A yw pobl ifanc yn fwy tebygol o bleidleisio mewn rhaglenni teledu realaeth na mewn etholiadau gwleidyddol? Pam?
- A ddylem bryderu bod nifer y bobl sy'n mynd i bleidleisio'n gostwng?
- Beth ellir ei wneud i annog pobl ifanc i bleidleisio?
- A fyddai cyflwyno dulliau newydd o bleidleisio, fel pleidleisio'n electronig neu drwy decstio, yn annog mwy o bobl i bleidleisio?

- A ddylid gwneud pleidleisio'n orfodol, gyda dirwy i'r rheini nad ydynt yn pleidleisio, fel sy'n digwydd yn Awstralia a Thwrci?
- A fyddwch chi'n pleidleisio yn y dyfodol? Pam?
- A ddylid gostwng yr oed pleidleisio i 16 yn y DU?

## *THE WESTERN MAIL*

### Pobl Ifanc yn Anwybyddu Etholiad y Cynulliad – Martin Shipton

8 Gorffennaf, 2003
Datgelwyd mai llai nag un o bob chwech o bobl ifanc a bleidleisiodd yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai.

Mae'r dadansoddiad annibynnol cyntaf o'r etholiadau, a gafodd ei gynnal ar ran y Comisiwn Etholiadol, yn dangos mai dim ond 16% o bobl o dan 25 oed a 21% o bobl rhwng 25 a 34 oed mewn arolwg sampl a bleidleisiodd, tra bo cymaint â 56% o bobl dros 55 oed wedi pleidleisio. Y ganran gyffredinol o'r rhai a bleidleisiodd oedd 38%, a oedd 8% yn is na'r ganran yn 1999. Yn Etholiad Cyffredinol 2001, pleidleisiodd 39% o bobl dan 25 oed ledled y DU, tra roedd y ganran gyffredinol yn y DU yn 59%, ac yn 61% yng Nghymru.

Pan ofynnwyd iddynt pam nad oeddynt wedi pleidleisio yn etholiad y Cynulliad ym mis Mai, dywedodd 19% eu bod yn rhy brysur neu'n gwneud rhywbeth arall, dywedodd 9% mai gwastraff amser yw'r Cynulliad, dywedodd 8% nad oedd ganddynt ddiddordeb, disgrifiodd 8% eu hunain fel pobl sydd "ddim yn rhan o bethau", a dywedodd 8% "eu bod i gyd fel ei gilydd". Roedd 8% arall i ffwrdd neu ar wyliau.

Pan ofynnwyd i bobl faint yr oeddynt yn ei wybod am y Cynulliad, dim ond ychydig dros un rhan o dair a ddywedodd eu bod yn gwybod llawer neu eithaf tipyn am Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ei bwerau, yr hyn mae wedi'i wneud ers ei sefydlu neu'r system bleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.

Lefelau isel o wybodaeth oedd gan bobl iau. Fodd bynnag, er gwaethaf y diffyg ymwybyddiaeth o'r Cynulliad a'i weithgarwch,

roedd 46% yn credu ei fod wedi gwella pethau o ran sut mae Cymru'n cael ei llywodraethu.

Dywedodd Glyn Mathias, y Comisiynydd Etholiadol, "Mae'r gwaith ymchwil yn cynnig peth newyddion calonogol i'r rhai sydd am dreialu ffyrdd newydd o bleidleisio.

"Dywedodd tua phedwar o bob deg y buasent yn fwy tebygol o bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad petaent yn gallu gwneud hynny drwy'r post neu dros y ffôn. Byddai pleidleisio ar y rhyngrwyd yn apelio fwyaf at y grŵp oedran 25 i 34. Mae hwn yn faes arall y bydd y Comisiwn yn ei astudio yn y misoedd i ddod."

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil gan NOP yn ystod tri diwrnod yn dilyn y diwrnod pleidleisio, gan gyfweld 1,153 o oedolion dros y ffôn yng Nghymru.

Dywedodd Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, "Mae anfodlonrwydd pobl ifanc â'r broses ddemocrataidd wleidyddol yn gyffredin i weddill y byd Gorllewinol.

"Mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd unigol, ac mae ein record yng Nghymru o ran annog pobl i gymryd rhan uniongyrchol yn y broses wleidyddol drwy wefan y Ddraig Ffwnci a fforymau pobl ifanc ar ben y rhestr drwy Ewrop, fel y cadarnhawyd gan Bapur Gwyn Ewropeaidd ar Ieuenctid ym mis Chwefror 2002.

"Fodd bynnag, mae'r ganran gyffredinol o bobl ifanc sy'n pleidleisio yn isel ym mhob gwlad, ac mae'r lefelau cyffredinol o bleidleisio yn gostwng yn fawr.

"Yn etholiadau diwethaf Cyngres yr Unol Daleithiau ym mis Tachwedd 2002, 30% yn unig a bleidleisiodd, er mai'r rheini oedd yr etholiadau mwyaf cystadleuol ers blynyddoedd.

"Mae hynny 8% yn is na'r canran a bleidleisiodd yn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2003."

## Pleidleisio yn Etholiad y Cynulliad 2011

| Grŵp | Canran a bleidleisiodd |
|---|---|
| Dynion | 57% |
| Menywod | 47% |
| 18 - 24 | 35% |
| 25 - 34 | 44% |
| 35 - 44 | 44% |
| 45 - 54 | 49% |
| 55 - 64 | 58% |
| 65+ | 70% |



Awgrym yn unig sydd yn y data hyn o'r rheini a oedd yn fwy neu lai'n debygol o bleidleisio yn yr etholiad. Dylid trin y ffigurau eu hunain yn ofalus gan eu bod yn seiliedig ar ganrannau hunan-adrodd, a oedd yn uwch na'r canrannau a bleidleisiodd mewn gwirionedd.

Tarddiad: Y Comisiwn Etholiadol

## Gweithgaredd 7: Theatr tair munud

Gan ddefnyddio canlyniadau eich sesiwn grŵp o greu syniadau, ysgrifennwch sgript tair munud ar gyfer naill ai radio neu deledu sy'n dramateiddio:

a) Y rhesymau pam nad yw pobl ifanc yn pleidleisio.
b) Beth ellir ei wneud i gael pobl ifanc i bleidleisio.
c) Pam y dylid gostwng yr oed pleidleisio i 16.

Dylid perfformio'r sgriptiau hyn o flaen gweddill y grŵp.

## Tasgau estynedig

1. Mae difaterwch ymhlith pleidleiswyr yn parhau i fod yn broblem, yn enwedig ymysg rhai rhwng 18 a 25 oed. Fel grŵp, cynlluniwch a dosbarthwch arolwg i ganfod pam nad yw pobl ifanc yn defnyddio'u pleidlais, a beth ellir ei wneud i wella'r sefyllfa. Gellir cyflwyno'ch canfyddiadau naill ai ar

bapur, trwy dablau a graffiau, neu fel cyflwyniad amlgyfrwng i weddill eich grŵp.

2. Lluniwch adroddiad ar rai o'r problemau yn eich ardal leol. Defnyddiwch luniau, cyflwyniadau PowerPoint, neu ganfyddiadau eich arolwg eich hun i gryfhau'ch achos. Rhowch wahoddiad i Aelod Cynulliad neu gynrychiolydd lleol arall ddod i'ch ysgol a chyflwynwch eich adroddiad iddynt.

## Atebion i Weithgaredd 3: Pleidlais i ferched!

1. Seland Newydd (1893)
2. Rwsia (1917)
3. Y Deyrnas Unedig (1918 - er ei bod yn 1928 cyn i hyn gynnwys pob merch dros 21)
4. UDA (1920)
5. Yr Eidal (1946)
6. Tsieina (1947)
7. Y Swistir (1971)
8. Sawdi Arabia (2011)

# I ganfod mwy

## Sefydliadau gwleidyddol

http://www.cynulliadcymru.org

http://www.chwilotaynycynulliad.org

http://www.parliament.uk

http://www.europarl.europa.eu

## Cymryd rhan

### Ffurflen ar-lein ar gyfer dod o hyd i gynrychiolwyr a chysylltu â hwy
http://www.writetothem.com

### Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions.htm

## Y pleidiau gwleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

### Plaid Cymru
http://www.plaidcymru.org

### Plaid Geidwadol Cymru
http://www.welshconservatives.com

### Plaid Lafur Cymru
http://www.welshlabour.org.uk

### Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
http://welshlibdems.org.uk/cy/

## Gwefannau defnyddiol eraill

http://www.funkydragon.org
http://www.cymru-yfory.co.uk/cym
http://www.cynnalcymru.com
http://www.aboutmyvote.co.uk

# Tarddiadau'r Lluniau

---

[1] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Simon_Wiesenthal.JPG. Awdur: Horego. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported

[2] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Grafitti_wall.jpg Awdur: Jongleur100. Trwydded: Parth cyhoeddus.

[3] Tarddiad: http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Fly_tipping_-_geograph.org.uk_-_1093620.jpg Awdur: Janice Lane. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 2.0 Generic

[4] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Plastiktueten.jpg Awdur: Tim Simms Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported

[5] Tarddiad: http://commons.wikimedia.org/wiki/File:British_Rail_Class_143_trains.jpg Awdur: Backifran Trwydded: Parth cyhoeddus

[6] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Queen_Victoria_60._crownjubilee.jpg Awdur: D. Downey / National Archives of Canada Trwydded: Parth cyhoeddus

[7] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:British_suffragette_clipped.jpg Awdur: Ch. Chusseau-Flaviens Trwydded: Parth cyhoeddus

[8] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Emmeline_Pankhurst_adresses_crowd.jpg Awdur: Topical Press Agency Trwydded: Pubilc domain

[9] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Cat_and_Mouse_Act_Poster_-_1914.jpg Awdur: Women's Social and Political Union. Trwydded: Parth cyhoeddus

[10] Tarddiad: http://nn.wikipedia.org/wiki/Fil:Leninposter.jpg Trwydded: Parth cyhoeddus